

# Ymgysylltu

## Blaenoriaethau'r tasglu

Ymgysylltu o ddifrif â chymunedau'r cymoedd i ddatblygu blaenoriaethau'r tasglu.

Cydweithio â rhanddeiliaid allanol i weithredu a datblygu blaenoriaethau'r tasglu.

Dysgu o'r hyn a wnaed eisoes a beth sydd ar gael yn barod.

Bod yn glir am beth fydd y tasglu'n ei gyflawni. Ffocws penodol ar fonitro a gwerthuso.

## Beth sydd wedi'i wneud...

Mae cyfanswm o naw digwyddiad ymgysylltu ffurfiol wedi'u cynnal yn cynnwys pum digwyddiad wedi'u targedu gyda phobl ifanc, rhieni, busnesau a thenantiaid tai cymdeithasol. Arweiniwyd pob cyfarfod gan Weinidog neu Ysgrifennydd Cabinet gyda chymorth aelodau'r tasglu, arweinwyr ALI, prif weithredwyr a chynrychiolwyr Byrddau Iechyd Lleol. Bydd y cyfarfodydd hyn yn helpu i nodi unigolion/aelodau'r gymuned a fydd yn dod yn aelodau o Banel Pobl y Cymoedd. Dechreuwyd cyfrifon Facebook a Twitter gyda'r hashnod #trafodycymoedd. Bwriedir cael sesiynau mewnol i staff ledled Llywodraeth Cymru trwy gydol mis Ebrill.

Mae contractwr allanol wedi'i benodi i ddadansoddi'r dystiolaeth bwrdd gwaith, canlyniadau'r digwyddiadau ymgysylltu a chynnal cyfres o grwpiau ffocws bach. Byddant yn cynhyrchu adroddiad interim a fydd yn cynnwys tystiolaeth o'r arolygon ar-lein hefyd a'r astudiaethau ethnograffig o'r ardaloedd pilot.

Cafodd Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes gyfarfod ag arweinwyr CLILC, Parciau Rhanbarthol, Oxfam, Prifysgol De Cymru a rhanddeiliaid eraill i drafod y prif flaenoriaethau a nodi cyfleoedd ar gyfer cydweithio. Cyfarfu aelodau'r tasglu â rhanddeiliaid eraill yn cynnwys Plant yng Nghymru.

Cynhaliodd y Gweinidog gyfarfod gydag arweinwyr ALI, Prif Weithredwyr ALI a Byrddau Iechyd Cyhoeddus. Mae partneriaid allweddol yn cael eu nodi yn ystod cyfarfodydd ymgysylltu hefyd.

Cynhelir adolygiad o dystiolaeth i edrych ar ymgysylltu blaenorol a chyfredol gyda chymunedau'r cymoedd o ran "beth sy'n bwysig" yn lleol yn cynnwys data ar lesiant ac Arolwg Cenedlaethol.

Cynhaliwyd adolygiad o ymgynghoriadau blaenorol gan Lywodraeth Cymru i nodi canfyddiadau sy'n berthnasol i'r tasglu. Mae'r rhain yn cynnwys ymgynghoriadau ar y cynnig gofal plant newydd a'r ymagwedd newydd at gymunedau cryf.

Mae gwaith yn mynd rhagddo i weld sut gallwn ddefnyddio technoleg ddigidol a data yn well i deall anghenion a blaenoriaethau lleol.

Lluniwyd safle mapio System Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS) a dangosfwrdd i amlinellu'r darlun presennol o wasanaethau yn y Cymoedd. Mae map pellach yn cael ei ddatblygu i fonitro setiau data allweddol, canlyniadau poblogaeth a mesurau perfformiad penodol.

Cyflwynwyd cynlluniau i werthuso rôl y tasglu yn barhaus ac i fontiro cynnydd amcanion allweddol.

# Blaenoriaeth 1: Swyddi a Sgiliau

## Blaenoriaethau'r tasglu

## Beth sydd wedi'i wneud ...

Mae diogelu a chreu swyddi newydd yn hanfodol i'r cymoedd.

Cytundeb gan Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes ac Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith i ddatblygu Cynllun Swyddi i'r cymoedd a fydd yn darparu 10,000 o swyddi o ansawdd i bobl y cymoedd. Bydd yn ymrwymiad allweddol yng Nghynllun Cyflawni'r Cymoedd.

Bydd gweithdy Swyddi a Sgiliau'n cael ei gynnal ar 24 Ebrill i asesu blaenoriaethau ar gyfer cynllun cyflawni'r cymoedd.

Rydym wrthi'n trafod budd i gymunedau ac yn dadansoddi gyda Gwerth Cymru gan ddefnyddio'r Adnodd Budd i Gymunedau i ystyried ymarfer a chyfluoedd. Mae hyn yn cynnwys gwaith yn ymwneud â mapio Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru ar draws y cymoedd.

Archwilio entrepreneuriaeth law yn llaw â defnyddio rhaglen REAP a sut gellir alinio a thargedu'r dull hwn yn y cymoedd.

Cynhaliwyd gweithdy Swyddi Gwell, Agosach i'r Cartref gyda'r Gweinidog Sgiliau a Gwyddoniaeth. Mae gwaith wedi dechrau i sicrhau dau hyb cyflogaeth newydd – yn enwedig mewn perthynas â dillad ac arwyddion.

Ymgysylltu parhaus gyda Trafnidiaeth Cymru ynghylch y Metro a chysylltiadau ag amcanion Cynllun Cyflogadwyedd drafft Cymru.

Bydd Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi Cynllun Cyflogadwyedd newydd yn haf 2017. Rhoddir ystyriaeth i sut bydd y Cynllun yn cael ei brofi yn y cymoedd.

Datblygir Fframwaith Gweithredu fel sail i Gynllun Cyflogadwyedd Cymru yn haf 2017 hefyd. Caiff blaenoriaethau a nodir drwy Dasglu'r Cymoedd eu cynnwys yn ffrydiau gwaith craidd y fframwaith.

Datblygu dull newydd o fuddsoddi yn nyfodol ein cymoedd yn sgil creu Rhaglen Rhannu Prentisiaethau newydd. Bydd hon yn cynnwys ffocws ar bynciau STEM allweddol neu bynciau cymeradwy lle nodwyd methiant yn y farchnad.

Mae Coleg y Cymoedd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf, Prifysgol De Cymru a Llywodraeth Cymru'n parhau i ystyried sut gellir cefnogi gofalmwyr i symud ymlaen mewn amrywiaeth eang o yrfaedd iechyd a gwasanaethau cymdeithasol.

Mae cynyddu sgiliau cyflogadwyedd yn allweddol i gefnogi adfywiad Cymoedd y De.

# Blaenoriaeth 2: Gwasanaethau Cyhoeddus Integredig a Gwell

## Blaenoriaethau'r tasglu

Ffocws penodol ar ddarparu gwasanaethau cydgysylltiedig ac integredig ar lefel leol.

Sicrhau bod ymrwymiadau Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yn cyd-fynd â blaenoriaethau'r tasglu

Ffocws ar sicrhau bod Bargen Ddinesig a Dinas-ranbarthau'n dod â'r manteision gorau posibl i Gymoedd y De.

## Beth sydd wedi'i wneud...

Disgwylir i'r tri chynllun peilot (yn Glynrhedynog, Llanhilledd a Glyn-nedd/Banwen) gychwyn yn fuan. Mae hysbyseb wedi'i gyhoeddi i uwch weision sifil gyda'r nod o dderbyn datganiadau o ddiddordeb. Bydd yr unigolion hyn yn cael eu dyrannu i ardal beilot, a byddant yn adrodd yn ôl i Fforwm Cyfarwyddwyr Polisi Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r materion a godir ac i roi atebion ar waith.

Gwaith parhaus i alinio mentrau peilot eraill â mentrau peilot y cymoedd. Mae hyn yn cynnwys mentrau peilot y Rhaglen Cyflogadwyedd Pob Oed, mabwysiadwyr cynnar y dulliau newydd yn ymwneud â chymunedau cryf, mabwysiadwyr cynnar y cynnig gofal plant newydd, Parthau Plant a Hybiau Ace.

Mae'r weledigaeth ar gyfer y cymoedd yn llywio diwyg arfaethedig Cynllun Cyflawni'r Cymoedd – a fydd yn cael ei fireinio o ganlyniad i waith ymgysylltu. Bydd y Cynllun Cyflawni'n defnyddio dull 'Fe ddywedoch chi.... Fe wnawn ni...'. Bydd tabl cyflawni, yn amlinellu camau gweithredu a chanlyniadau allweddol yn sail i hyn.

Bydd swyddogion yn cynnal pum gweithdy'n canolbwyntio ar ffrydiau gwaith y Cynllun Cyflawni yn ystod yr wythnos sy'n dechrau ar 24 Ebrill. Bydd y gweithdai'n canolbwyntio ar: Swyddi a Sgiliau, Gwasanaethau Cyhoeddus, Cyfleoedd Digidol, yr Amgylchedd: Cyflenwi Manteision Lluosog ac Asedau a Chyfleoedd. Nod y gweithdai hyn fydd datblygu cynigion adrannol presennol ar gyfer y cymoedd ymhellach. Bydd y gwaith hwn yn cyfrannu at y tabl sy'n sail i'r gwaith.

Mae Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes wedi cynnal trafodaethau dwyochrog gyda holl Ysgrifenyddion y Cabinet a Gweinidogion Cymru i barhau i sbarduno ffocws traws-lywodraethol ar y cymoedd.

Bydd trosolwg o'r offeryn mapio ffiniau'n cael ei arddangos yng nghyfarfod nesaf y tasglu. Mae rhagor o ddata wedi'i allforio ar y map, gan gynnwys Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru.

Cafwyd ffocws parhaus ar sicrhau cysondeb â'r Bargeinion Dinesig a'r Dinas-ranbarthau. Mae swyddogion yn parhau i fynychu Bwrdd Adolygu Bargeinion Dinesig Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau cysondeb parhaus.

# Blaenoriaeth 3: Lles Cymunedol a Phersonol

## Blaenoriaethau'r tasglu

## Beth sydd wedi'i wneud...

### Yr amgylchedd

- Gwneud y gorau o botensial twristaidd Cymoedd y De
- Defnyddio amgylchedd naturiol y cymoedd i wella iechyd a lles pobl
- Gwella amgylchedd ffisegol
- cymunedau
- Cynhyrchu ynni, mewn partneriaeth â chymunedau lleol.

Bydd yr amgylchedd a thwristiaeth yn cael eu trafod fel rhan o gyfarfod nesaf y tasglu. Cynhaliwyd gweithdy ar 21 Mawrth i nodi cynigion amlinellol i'w trafod yn y tasglu. Bydd hyn yn cael ei ddatblygu ymhellach fel rhan o'r ffrwd waith sy'n sail i Gynllun Cyflawni'r Cymoedd.

Cynhelir dau weithdy'n canolbwyntio ar ffrwd waith yr amgylchedd ar 28 o Ebrill. Byddant yn canolbwyntio'n benodol ar yr Amgylchedd: Ynni a'r Amgylchedd: Egnïol a'r Gymuned. Nod y gweithdai fydd datblygu'r tabl darparu sy'n sail i Gynllun Cyflawni lefel uchel y Cymoedd ymhellach.

### Iechyd a Lles

- Ffuriau newydd o ymgysylltu â'r gymuned
- Rôl sefydliadau celfyddydol a diwylliannol
- Rôl y GIG a gofal cymdeithasol, mynediad at wasanaethau gofal sylfaenol gwell
- Lles meddyliol ar gyfer unigolion
- Gwasanaethau cyhoeddus darbodus

Mae gwaith yn mynd rhagddo i alinio'r cynigion yn y Papur Iechyd blaenorol â buddsoddiadau strategol a gwasanaethau cyhoeddus eraill. Trafodir y cynigion fel rhan o'r gweithdy Gwasanaethau Cyhoeddus sydd wedi'i drefnu ar gyfer 24 Ebrill a bydd yn cyfrannu at yr ymrwymadau yn y Cynllun Cyflawni arfaethedig.

Mae trafodaethau ar y gweill ynghylch sut gall y Cyrff Cyhoeddus (gan gynnwys y celfyddydau, diwylliant a sefydliadau chwaraeon) sy'n sail i Fesur Plant a Theuluoedd Cymru y gefnogi gwaith y tasglu. Mae hyn yn cael ei archwilio yn arbennig o safbwynt sut gallant gysylltu â'r cymoedd.

### Tai ac Adfywio

- Tai - gan gynnwys amodau a chyfleoedd yn ymwneud â'r Metro
- Tai cymdeithasol - stoc tai a chysylltu tenantiaid â'r gymuned
- Adfywio - manteisio i'r eithaf ar fuddsoddi yn y cymoedd

Mae gwaith yn mynd rhagddo i alinio'r cynigion yn y Papur Tai blaenorol â buddsoddiadau strategol yn ymwneud â'r Metro. Trafodir y cynigion fel rhan o'r gweithdy Gwasanaethau Cyhoeddus sydd wedi'i drefnu ar gyfer 24 Ebrill a bydd yn cyfrannu at yr ymrwymadau yn y Cynllun Cyflawni arfaethedig.

Cynhaliwyd trafodaethau gyda swyddogion adfywio mewn perthynas â datblygu cynnig ar gyfer y cymoedd. Bydd hyn yn cynnwys archwilio cysylltiadau â buddsoddi yn y dyfodol yn ymwneud â Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid ac awgrymiadau'n ymwneud â Chanol Trefi. Bydd hyn yn cyfrannu at ymrwymadau yn y Cynllun Cyflawni arfaethedig.